Arolygiaeth Gofal Cymru

Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Bwlch-y-groes**

**Neuadd Gymunedol Bwlch-y-groes**
**Bwlch-y-groes**
**SA35 0DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/03/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Bwlch-y-groes yn darparu gofal sesiynol i hyd at 24 o blant rhwng dwy a phedair oed. Cynhelir y Cylch yn Neuadd Gymunedol Clydey ym mhentref Bwlch-y-groes. Mae ar agor rhwng 9am a 11.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Dafydd Jones a Betty Stilwel yw'r personau cofrestredig. Bethan Moyse yw'r person â chyfrifoldeb. Caiff y gwasanaeth ei ariannu i ddarparu gofal i blant tair oed ac o ganlyniad, caiff ei arolygu gan Estyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

**1. Asesiad cyffredinol**

Gwelsom fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Bwlch-y-groes yn hapus iawn, wedi setlo'n dda, ac yn amlwg yn mwynhau eu hamser yma'n fawr iawn. Mae eu profiadau dysgu'n tanio eu brwdfrydedd, ac maent yn awyddus i fod yn annibynnol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, gydag amrywiaeth o ardaloedd diddorol ac adnoddau i wella eu chwarae a'u dysgu. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn hapus â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth a ddarperir.

**2. Gwelliannau**

Mae'r unigolion cofrestredig wedi bodloni'r gofynion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf mewn perthynas ag arwain a rheoli ac iechyd a diogelwch.
Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei datblygu fel y gall y plant chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rydym wedi gwneud argymhelliad mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Mae hyn wedi'i nodi yng nghefn yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yng Nghylch Meithrin Bwlch-y-groes yn hapus iawn, yn ddiogel, wedi setlo ac yn mwynhau'r amrywiaeth eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r staff yn gwrando arnynt, gallant wneud dewisiadau, ac maent yn awyddus i fod yn annibynnol. Maent yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd ac ag oedolion cyfarwydd.

### Ein canfyddiadau

Wrth gyrraedd, gwnaeth plant ddewis yn hyderus o amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael iddynt, a symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, bu'r plant yn chwarae â thoes chwarae cyn symud i chwarae yn y tywod gyda'u ffrindiau. Gofynnodd y plant yn bendant am gael paentio, gan estyn y poteli paent eu hunain a dewis lliw'r paent yr oeddent am ei ddefnyddio. Gwnaethant alw ar y staff i edrych ar y lluniau roeddent wedi eu paentio, gan wenu wrth gael ymateb cadarnhaol a chanmoliaeth ganddynt. Yn ystod amser cylch, bu'r plant yn dewis y caneuon yr oeddent am eu canu o amrywiaeth o gardiau llun. Roeddent yn wen o glust i glust pan gafodd y gân yr oeddent wedi ei dewis ei chanu.

Roedd y plant yn hapus ac wedi ymlacio yn ystod ein hymweliad. Roeddent yn cyrraedd yn hapus, gan ffarwelio â'u rhieni'n frwdfrydig cyn setlo i chwarae. Daethant â theganau newydd i'r gwasanaeth i'w dangos i'r staff a'r plant eraill. Roeddent wrth eu bodd pan oedd y staff yn talu sylw i'w teganau newydd. Roedd y plant yn sgwrsio'n hapus yn ystod amser byrbryd, gan drafod aelodau o'u teuluoedd a phen-blwyddi.

Roedd y plant yn garedig, yn barod i gydweithredu ac yn ymddwyn yn dda. Roeddent yn rhyngweithio'n dda â'r plant eraill ac aelodau o'r staff. Roedd y plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn hapus neu'n ymuno yng ngemau plant eraill yn ôl eu dymuniad. Roedd y plant yn rhannu adnoddau a theganau wrth chwarae yn y toes chwarae, gan estyn torwyr, rholbrennau a siswrn i'w gilydd. Roedd un plentyn yn chwarae ar ei ben ei hun yn y cafn tywod, cyn i blentyn arall ymuno yn y chwarae gan rannu'r cynwysyddion a'r cyfarpar yn hapus. Roedd y plant yn dal dwylo yn ystod amser cylch ac yn cofleidio eu ffrindiau'n garedig. Roedd y plant yn rhoi mwythau i'r staff yn ddigymell ac yn eistedd ar eu gliniau wrth edrych ar lyfrau.

Roedd y plant yn mwynhau eu chwarae ac yn cynnwys y staff. Er enghraifft, roedd y plant yn estyn ffug fwyd a chwpanau i'r staff yn yr ardal chwarae rôl. Roeddent yn gwenu'n hapus pan wnaeth y staff yn ymuno â'u chwarae dychmygus, gan ddiolch iddynt am eu bwyd blasus. Roedd y plant yn canu i'w hunain yn hapus wrth iddynt wthio cerbydau o amgylch y carped, gan chwerthin yn uchel pan fyddai'u ffrindiau'n eu stopio â cherbyd yr heddlu. Gwnaethant gymryd rhan yn frwd mewn caneuon actol yn ystod amser cylch. Roedd y plant yn neidio i fyny ac i lawr wrth aros i fynd allan am dro i weld y gwaith adeiladu a oedd yn cael ei wneud yn yr adeilad drws nesaf.

Roedd y plant yn cael eu hannog yn frwd i fod yn annibynnol. Wrth gyrraedd, gwnaethant hongian eu cotiau a'u bagiau, golchi eu dwylo a hunangofrestru. Yn ystod y sesiwn, roedd y

plant yn ysgubo tywod â brwsh a rhaw lwch, yn arllwys eu paent eu hunain mewn potiau, yn helpu eu hunain i bapur ac yn pentyrru cadeiriau'n ddigymell. Roddent yn golchi eu dwylo yn annibynnol cyn amser byrbryd ac yn sychu'r bwrdd i baratoi ar gyfer amser byrbryd. Roeddent yn mynd i'w seddi a oedd wedi'u labelu, yn rhoi menyn ar gracers, yn torri eu banana a'u caws eu hunain ac yn arllwys eu llaeth neu eu dŵr eu hunain. Byddai helpwr y dydd yn mynd at bob plentyn i ofyn a oedd wedi gorffen ei fyrbryd cyn casglu'r platiau, y cwpanau a’r cyllyll a’r ffyrc brwnt a'u rhoi mewn bowlen golchi llestri. Bu'r plant yn tacluso ar wahanol adegau a gwnaethant frwsio eu dannedd eu hunain. Roeddent yn rhoi'r hancesi yr oeddent wedi eu defnyddio yn y bin cywir, ac yn gallu gwisgo eu cotiau eu hunain a'u sipio'n annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn gyson am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig yn eu harferion o ddydd i ddydd, ac yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau ysgogol ac amrywiol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau. Roedd y rhieni a'r staff wedi llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo wrth gyrraedd y gwasanaeth, cyn cael byrbryd a chyn gadael y gwasanaeth. Fodd bynnag, roeddent yn defnyddio un tywel llaw mawr i sychu eu dwylo. Roedd y gwasanaeth yn hybu bwyta'n iach drwy roi ffrwythau i'r plant yn ystod amser byrbryd, a dŵr neu laeth i'w hyfed. Ni welsom yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio gan y plant i wylio'r adeiladwyr yn gweithio, fel yr oedd y staff wedi ei gynllunio.

Roedd y staff wedi canmol y plant am ymddwyn yn dda ac wedi ymateb i'r plant a oedd am gael eu cofleidio neu am gael sicrwydd. Roeddent yn eistedd i lawr ar yr un lefel â'r plant wrth iddynt chwarae, ac yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd. Roeddent yn rhoi sylw i anghenion y plant, er enghraifft, yn sylwi bod un plentyn wedi blino ac yn mynd ag ef i'r gornel ddarllen dawel i gael ei gysuro. Roedd y staff yn modelu ymddygiad da drwy siarad yn garedig â'i gilydd ac â'r plant drwy gydol y sesiwn, gan gydymffurfio â'u polisi ymddygiad.

Roedd gan y staff wybodaeth dda am y plant yn eu gofal am eu bod yn gallu disgrifio hoffterau, cas bethau, anghenion a galluoedd unigol y plant. Roeddent yn nodi pa blant oedd yn ffrindiau agos ac yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd. Roedd y staff yn casglu gwybodaeth am y plant yn eu gofal cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth ac roeddent yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i olrhain datblygiad y plant. Cafodd gweithgareddau eu cynllunio o gwmpas thema, megis 'pobl sy'n ein helpu', gyda chyfraniadau gan y staff a'r plant. Roeddent yn dilyn y gweithdrefnau cywir mewn perthynas â phlant ag anghenion ychwanegol gan ddarparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd y staff yn rhoi adborth ar lafar i'r rhieni a'r gofalwyr ar ddiwedd y sesiwn ynghylch amser eu plant yn y gwasanaeth.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw yn rheolaidd ac yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas i'r plant. Mae'r gwasanaeth yn olau, yn lliwgar ac wedi'i addurno'n dda. Roedd y plant yn cael gafael ar amrywiaeth dda o deganau, offer a dodrefn o faint sy'n addas i blant yn hawdd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn cael gofal mewn adeilad glân a diogel. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus. Caiff teganau eu glanhau'n rheolaidd, a chaiff unrhyw deganau wedi'u torri eu taflu gan roi rhai newydd yn eu lle. Roedd y drws i'r gwasanaeth yn cael ei gadw dan glo ac nid oedd ymwelwyr heb wahoddiad yn cael dod i mewn heb oruchwyliaeth. Roedd llyfr ymwelwyr ar waith ac yn cael ei ddefnyddio i gofnodi ymwelwyr â'r gwasanaeth. Roedd cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod larymau tân a mwg yn ogystal â'r system wresogi yn cael eu profi bob blwyddyn. Roedd y dyfeisiau trydanol wedi cael prawf PAT. Roedd y plant a'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, gan gofnodi pob un ohonynt. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cynnal ar gyfer yr ardaloedd dan do, yn yr awyr agored ac ymweliadau i'r gymuned. Roedd risgiau'n cael eu nodi a'u dileu i'r graddau sy'n bosibl.

Roedd yr ystafell wedi cael ei threfnu i ddarparu holl feysydd y cyfnod sylfaen, gydag ardaloedd i'r plant chwarae mewn gwahanol ffyrdd megis ardal grefft, ardal adeiladu, cornel ddarllen a chegin chwarae rôl. Roedd teganau ac adnoddau'n cael eu storio o fewn cyrraedd y plant. Roedd grisiau ar gael i'r plant eu defnyddio i fynd i'r toiled a defnyddio’r sinc yn annibynnol. Roedd yr ardal awyr agored wedi'i hamgáu ac yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Roedd y plant yn gallu manteisio ar chwarae tywod, fframiau dringo, gwesty i fwystfilod bach, ardal gerddoriaeth, ardal ddarganfod a gerddi uchel i dyfu llysiau a blodau. Ni welsom y plant yn defnyddio’r ardal awyr agored i wylio'r adeiladwyr yn gweithio, fel yr oedd y staff wedi ei gynllunio.

Roedd amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant megis deunyddiau creadigol, deunyddiau synhwyraidd, teganau chwarae rôl a chwarae byd bach, a oedd yn briodol ar gyfer oedran y plant. Roedd teganau diwylliannol a theganau cyfleoedd cyfartal ar gael i'r plant, ac roeddent yn eu defnyddio bob dydd. Roedd adnoddau eraill yn cael eu defnyddio wrth edrych ar thema neu stori benodol megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Roedd y teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mewn cyflwr da. Roedd y gwasanaeth wedi cael grant yn ddiweddar i brynu cyfarpar technoleg gwybodaeth newydd.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau a gwiriadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth, ac mae systemau ar waith ar gyfer adolygu ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt. Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau da â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben ar waith a oedd yn fanwl, ac yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol gan y staff fel rhan o'u harferion beunyddiol. Er enghraifft, roedd y staff yn dilyn y dulliau a amlinellwyd ym mholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth drwy gydol ein hymweliad. Ymysg y polisïau newydd roedd polisi asthma, polisi byw'n iach a pholisi ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Gwnaeth yr arweinwyr adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol a llunio adroddiad. Gwnaethant ddadansoddi'r sylwadau a gawsant gan y rhieni a'r plant ym mhob maes ac roeddent yn awyddus i wella eu gwasanaeth. Roedd y sylwadau o holiaduron y rhieni a'r plant yn gadarnhaol iawn. Er enghraifft, 'Outstanding with children, highly recommend.'

Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl ddogfennau perthnasol ganddynt ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal ar y staff ac roeddent yn nodi anghenion hyfforddi a thargedau datblygu. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar y gegin fwd, cymorth i blant ag anghenion iaith a chyfathrebu ac iechyd a diogelwch.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Roeddent yn hapus â'r wybodaeth a gawsant cyn i'w plentyn ddechrau yn y gwasanaeth yn ogystal â'r wybodaeth a gawsant am gynnydd eu plentyn. Dywedodd y rhieni eu bod yn arbennig o falch bod eu plant wedi setlo yn y gwasanaeth yn gyflym, ac yn mwynhau'r prosiectau ysgol gartref a roddwyd iddynt i'w gwneud, a oedd yn cyd-fynd ag amrywiaeth o themâu. Caiff digwyddiadau codi arian megis bingo, ffair Nadolig, stondinau yn y sioe gymunedol, gorymdaith tractors a digwyddiadau noddedig eu cefnogi'n dda gan y rhieni a'r gymuned ehangach.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Nid oedd y personau cofrestredig yn cydymffurfio mewn perthynas â'r rheoliadau mewn perthynas â'r canlynol;

- Adolygu ansawdd y gofal gan fod yr adroddiad diwethaf ar gael yn dyddio o 2014;
- peryglon a diogelwch gan nad oedd unrhyw asesiadau risg ar gael;
- cyflogi staff gan nad oedd unrhyw gofnodion yn dangos bod arfarniadau na sesiynau goruchwylio wedi cael eu cynnal â'r staff;

Roedd y personau cofrestredig wedi cymryd camau mewn perthynas â phob un o'r uchod a bellach maent yn cydymffurfio.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell bod y plant yn cael tywelion papur i sychu eu dwylo er mwyn osgoi croeshalogi.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd adborth yn ddiweddarach.

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 12 Mawrth 2020 am 4 awr.
- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a digwyddiadau a chofnodion cynllunio.
- Gwnaethom arsylwi ar y plant gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff.
- Gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb, y staff, y rhieni a'r plant.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Dafydd Jones**<br>**Betty Stilwell** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Catrin Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-4 oed** |
| **Oriau agor** | **9am-11.30pm o ddydd Llun i ddydd Iau** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **23 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **12 Mawrth 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.